CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Dyddiad: **16.12.2022**

Teitl: **Amrywiaeth mewn Democratiaeth**

Pwrpas yr adroddiad: **Ystyried gohebiaeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru.**

Cefndir

Ysgrifennodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru at Gyngor Sir Ceredigion ar 9 Awst 2022 i gynnig cefnogaeth i'r Cyngor wrth iddo ddod yn gyngor mwy amrywiol (Atodiad 1). Mae'r llythyr yn nodi bod gan ddau gyngor bellach, ers etholiadau lleol 2022, yr un nifer o ddynion a menywod yn gynghorwyr a bod cynnydd cyffredinol wedi bod yn nifer y menywod a etholwyd yn gynghorwyr.

Ar 23 Medi 2021, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion ddatganiad 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cytunwyd i wneud y canlynol:

- Rhoi ymrwymiad cyhoeddus clir i wella amrywiaeth mewn democratiaeth
- Arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, gan hybu'r safonau uchaf o ymddygiad
- Ystyried amrywio amser cychwyn cyfarfod y cyngor a chytuno ar gyfnodau toriad i gefnogi cynghorwyr gydag ymrwymiadau eraill; a
- Nodi Cynllun Gweithredu o weithgareddau cyn etholiadau lleol 2022

Cafodd Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth y Cyngor ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ar ben hynny, cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a chanllaw ar gyfer darpar ymgeiswyr. Roedd y canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth am rôl y Cynghorydd, y gwahanol Bwyllgorau a'r broses enwebu, ac ati. Roedd y canllaw hefyd yn cyfeirio at y cyfraniadau y gall y Cyngor ei wneud i gost gofal ynghyd ag absenoldebau teuluol, ac ati. Erbyn hyn, mae'r ffaith bod cyfarfodydd hybrid yn cael eu cynnal yn cynnig hyblygrwydd i'r rheiny sydd ag ymrwymiadau o ran gofalu neu waith. Byddwn yn cynnal adolygiad o amseroedd cyfarfodydd y cyngor yn fuan a byddwn yn ymgynghori â'r Cynghorwyr fel y gallant rannu eu barn.

Yn dilyn adolygiad o ffiniau Cymru, cafodd nifer y seddi yng Ngheredigion yn 2022 eu lleihau o 42 i 38. Cyn yr etholiadau yn 2022, roedd gan Gyngor Sir Ceredigion 37 (88%) o gynghorwyr a oedd yn ddynion a 5 (12%) o gynghorwyr a oedd yn fenywod. Yn dilyn yr etholiad, etholwyd 30 o ddynion (79%) a 8 o fenywod (21%); sy'n cyfateb i newid o 9%. Yn dilyn Is-etholiad Llanbedr Pont Steffan ym mis Hydref 2022, mae gan y Cyngor bellach 29 (76%) o gynghorwyr sy'n ddynion a 9 (24%) o gynghorwyr sy'n fenywod.

Gweler isod grynodeb o grwpiau / pleidiau'r holl gynghorwyr presennol (gan gynnwys yr aelodau annibynnol) ym mis Mai 2022:

	Nifer y cynghorwyr	Nifer y cynghorwyr sy'n ddynion	Nifer y cynghorwyr sy'n fenywod	Canran y cynghorwyr sy'n ddynion	Canran y cynghorwyr sy'n fenywod
Plaid Cymru	20	15	5	75%	25%
Democratiaid Rhyddfrydol	7	4	3	57%	43%
Aelodau Annibynnol	9	9	0	100%	0%
Llafur	1	1	0	100%	0%
Gwlad	1	1	0	100%	0%

Dyma grynodeb o'r ffigurau ar ôl is-etholiad Llanbedr Pont Steffan:

	Nifer y cynghorwyr	Nifer y cynghorwyr sy'n ddynion	Nifer y cynghorwyr sy'n fenywod	Canran y cynghorwyr sy'n ddynion	Canran y cynghorwyr sy'n fenywod
Plaid Cymru	21	15	6	71%	29%
Democratiaid Rhyddfrydol	7	4	3	57%	43%
Aelodau Annibynnol	9	9	0	100%	0%
Gwlad	1	1	0	100%	0%

Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022, gwnaeth 24 o Gynghorwyr ddychwelyd a daeth 14 o gynghorwyr newydd i'r Cyngor. O'r 14 cynghorydd newydd, mae 8 ohonynt yn ddynion (57%) a 6 ohonynt yn fenywod (43%). Mae hyn yn dangos symudiad mawr tuag at y nod o wella amrywiaeth mewn democratiaeth yng Ngheredigion. Mae'r ffigurau yn dilyn yr is-etholiad fel a ganlyn: 15 o gynghorwyr newydd - 8 ohonynt yn ddynion (53%) a 7 ohonynt yn fenywod (47%)

Gweler isod grynodeb o grwpiau / pleidiau'r cynghorwyr newydd (gan gynnwys yr aelodau annibynnol) ym mis Mai 2022:

	Nifer y cynghorwyr newydd	Nifer y cynghorwyr sy'n ddynion	Nifer y cynghorwyr sy'n fenywod	Canran y cynghorwyr sy'n ddynion	Canran y cynghorwyr sy'n fenywod
Plaid Cymru	9	4	5	44%	56%
Democratiaid Rhyddfrydol	2	1	1	50%	50%
Aelodau Annibynnol	2	2	0	100%	0%
Gwlad	1	1	0	100%	0%

Dyma grynodeb o'r ffigurau ar ôl is-etholiad Llanbedr Pont Steffan:

	Nifer y cynghorwyr newydd	Nifer y cynghorwyr sy'n ddynion	Nifer y cynghorwyr sy'n fenywod	Canran y cynghorwyr sy'n ddynion	Canran y cynghorwyr sy'n fenywod
Plaid Cymru	10	4	6	40%	60%
Democratiaid Rhyddfrydol	2	1	1	50%	50%
Aelodau Annibynnol	2	2	0	100%	0%
Gwlad	1	1	0	100%	0%

Gan gynnwys y seddi diwrthwynebiad, gwnaeth 87 o ymgeiswyr sefyll yn etholiadau 2022. Roedd 67 (77%) ohonynt yn ddynion ac 20 (23%) ohonynt yn fenywod. O ychwanegu data is-etholiad Llanbedr Pont Steffan, gwnaeth 91 o ymgeiswyr sefyll yn etholiadau 2022. Roedd 68 (75%) o'r ymgeiswyr yn ddynion a 23 (25%) yn fenywod.

Gweler isod grynodeb o grwpiau / pleidiau'r ymgeiswyr (gan gynnwys yr ymgeiswyr annibynnol) ym mis Mai 2022:

	Dynion	Menywod
Plaid Cymru	20	10
Annibynnol	23	3
Y Democratiaid Rhyddfrydol	9	4

Llafur	7	2
Y Blaid Werdd	4	1
Y Blaid Geidwadol	2	0
Gwlad	1	0
Dim disgrifiad	1	0

Dyma grynodeb o'r ffigurau ar ôl is-etholiad Llanbedr Pont Steffan:

	Dynion	Menywod
Plaid Cymru	20	11
Annibynnol	24	3
Democratiaid Rhyddfrydol	9	5
Llafur	7	3
Y Blaid Werdd	4	1
Y Blaid Geidwadol	2	0
Gwlad	1	0
Dim disgrifiad	1	0

Argymhelliad: Nodi'r symudiad tuag at wella amrywiaeth mewn democratiaeth yng Nghyngor Sir Ceredigion

Atodiadau: Gohebiaeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru

Dogfennau Cefndir:

Enw: Lowri Edwards

Teitl y Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: 26.11.2022